Own, on, pro. eiddo; a. priod, priodol: vt. meddu, perchenogi; arddelu; addef, cyfaddef, cydnabod; piau. My own, eiddof, eiddof fi, eiddof fy hun. His own, ei eiddo ei hunan

Owner, o'nūr, n. perchenog, meddiannydd

Ownership, o'nūr-shīp, n. perchenogaeth

Ox, ōks (pl. oxen, ōk'sn), n. ych, eidion.

Ox-eyed, llygadfawr. Ox-driver, cethreawr, cethreinydd. Ox-stall, cōr ychen. Oxen, ychen. A wild ox, bual. A young ox, bustach

Oxford, ōks'fō'rđ, n. Rhydychain, Caer Wysog

Oxlip, ōks'līp, n. llysiau'r parlys

Oxonian, ōks-o'nī-ān, n. aelod neu raddolwr prifysgol Rhydychain

Oxter, ōks'tūr, n. cesail

Oxycerate, ōk'sī-krat, n. cymysg o winegr a dwfr

Oxygen, ōk'sī-jēn, n. ufelai

Oxymel, ōk'sī-mēl, n. cymysg o winegr a mēl

Oxyphony, ōks-īf'o-nī, n. crochder llais

Oyer, o'yūr, n. gwrandawriad. Oyer and terminer, llys clyw a dosparth, prawfllys

Oyes, o-yēs', int. clywch; gosteg

Oyster, ōīs'tūr, n. llymarch, llymarchen. Oyster-wench, Oyster-wife, Oyster-woman, llymeirch-wraig; budrogen

Ozæna, o-zī'nā, n. llynor yn y ffroenau

P

- PABULAR**, pãb'u-lür, Pabulous, pãb'-u-lüs, a. ymborthol
- Pabulation**, pãb-u-la'shün, n. ymborthiad, porthiant, maeth
- Pabulum**, pãb'u-lüm, n. ymborth, bwyd
- Pacated**, pã-ka'tëd, a. heddychedig
- Paciation**, pã-ka'shün, n. heddychiad
- Pace**, pas, n. cam, camre; mesur cam, 2½ droedfedd: v. camu, mesur â chamrau; rhygyngu, araf-gerdded. Geometrical pace, 5 troedfedd
- Pacer**, pa'sür, n. rhygyngfarch, rhygyngydd
- Pacha**, pã-shõ', n. îslywydd yn Nhwrci
- Pachydermata**, pãk-i-dür'mã-tã, n. pl. milod tew-groen
- Pacific**, pã-sif'ik, a. heddychol, heddychlawn, dyhuddgar; tawel, llonydd.
- Pacific Ocean**, Môr Tawelog, Môr Tawel
- Pacification**, pã-sif-i-ka'shün, n. heddychiad, dyhuddiad, tangnefeddiad
- Pacificator**, pã-sif'i-ka-tür, Pacifier, pã'si-fi-ür, n. tangnefeddwr
- Pacify**, pã'si-fi, vt. dyhuddo, diddigio, heddychu, tawelu
- Pack**, pãk, n. swp, sypyn, trwl, beichyn, pwn, baich, byrnaid, bwrnel; cnud: v. sypynio, llwytho, pynorio, pynio.
- Pack-cloth**, sach liain. **Pack-horse**, pynfarch. **Pack-saddle**, ystrodur, **Pack-thread**, edau rwymo
- Package**, pãk'aj, n. pynordal
- Packet**, pãk'ët, n. sypyn; llythyrgõd.
- Packet-ship**, llong fechan
- Pact**, pãkt, **Paction**, pãk'shün, n. ammod, cyfammod, cytundeb
- Pad**, pãd, n. clustogan; corfarch, ceffyllyn; lleidr traed: v. troedio; yspeilio; sachellu
- Padar**, pãd'ür, n. rhynion, brasflawd
- Paddle**, pãd'l, n. rhodl; rhwyf: v. rhodli, rhwyfo; yslotian
- Paddock**, pãd'ük, n. llyffant mawr; llanerch, cae. **Paddock-stool**, bwyd y bareud
- Padlock**, pãd'lök, n. clo egwyd
- Pæan**, pi'an, n. cân o orfoledd, mawlgân, orioan
- Pædobaptism**, Pedobaptism, pi-do-bãp'tizm, n. bedydd babanod
- Pagan**, pa'gãn, n. cenedlddyn, un digred, eilun addolwr
- Paganism**, pa'gãn-izm, n. paganiaeth, annghristiaeth, eilunaddoliaeth
- Page**, paj, n. tudalen; gwesyn, gwas, gwastrodyn: vt. nodi tudalenu; gweini
- Pageant**, paj'ânt, n. coeglun: a. coegwych, gwagfalch, rhodresol
- Pageantry**, paj'ãn-tri, n. coegwychder, rhodres, rhwysgfwredd, gwagymddangosiad
- Paginal**, pa'ji-nãl, a. tudalenol
- Pagoda**, pã-go'dã, Pagod, pa'göd, n. eilun-deml Indiaidd
- Paid**, pad, pt. & pp.—Pay
- Pail**, pal, n. ystwe, crwc, celwrn, paeol
- Pailful**, pal'fwl, n. ystycaid, celyrnaid
- Pain**, pan, n. poen; gwaew, gwst, dolur; gofid; poenedigaeth; llafur; cosp: vt. poeni, dolurio, blino. Pains-taking, llafurus, diwyd. Pain of the bowels, coluddwt. Extreme pain, dirboen. To take pains, ymboeni, ystigo, ymdrafferthu [llafurus]
- Painful**, pan'fwl, a. poenus, dolurus;
- Painfulness**, pan'fwl-nës, n. poenusrwydd
- Painim**, pa'nim, n. annghredadyn
- Painless**, pan'lës, a. diboen; esmwyth, hawdd
- Paint**, pant, n. paent, lliw, darlunliw: v. paentio, lliwio, arliwio; darlunio
- Painter**, pan'tür, n. paentiwr; arliwydd, darliwydd, arluniwr [darlun]
- Painting**, pan'ting, n. paentiad; llun,
- Pair**, pe'r, n. pâr, dau, cwpl: v. paru, cymharu; cydio. Pairs, cymhariaid
- Palace**, pãl'as, n. llys, plas, neuadd
- Palæology**, pa-li-õl'o-ji, n. henafiondraeth
- Palæontology**, pa-li-õn-tõl'o-ji, n. cloddianndraeth, heinionddsoddiaeth
- Palanquin**, pãl-ãn-kin', n. math o gludai a ddygir ar ysgwyddau dynion
- Palatable**, pãl'a-tã-bl, a. chwaethus, blasus
- Palatal**, pãl'a-tãl, a. gorchfannol. Palatal consonants, gorchfannolion
- Palate**, pãl'at, n. taflof y genau, gorchfan, gorchfannedd; archwaeth, blas
- Palatial**, pã-la'shãl, a. llysaidd, llysol, ardderchog; gorchfanneddol
- Palatic**, pãl'a-tik, a. gorchfanneddol
- Palatinate**, pã-lãt'i-nat, n. breinniarllath, breinnfa [breinniog]
- Palatine**, pãl'a-tin, a. breinniarllaidd,

PAN pāth, fāt, ēre, mēt, mā-rīne, pīn, ōrb, ōn, cūrve, cūt, tŵ=too, tŵk=took;	Palpitate, pāl'pī-tat, vi. dychlamu; curo, dyheuo, tysmwyo
Palaver, pā-lā'vūr, n. gormod-siarad, baldordd: vi. bragaldian, gwagsiared	Palpitation, pāl-pī-ta'shūn, n. dychlam-iad y galon, calon-guriad
Pale, pal, a. gwelw, gwelwlas, gwynwelw, glaswyn, llwydaidd; glas: n. pawl, cledr, cledr-bawl; palis; clawdd; awdurdodaeth, rhaglawiaeth; argae, caerau, amgaerau: v. cledru, cledr-gau; palisio. Pale-eyed, llygadwbl.	Palsgrave, pōlz'grav, n. teyrn-iarll
Pale-faced, wyneblwyd	Palsical, pōl'zī-kāl, Palsied, pōl'zīd, a. parlysaidd [gwywhaint
Palendar, pāl'ēn-dūr, n. math o long fechan [wyni	Palsy, pōl'zī, n. parlys, haint y gïau,
Paleness, pal'nēs, n. gwelwedd; glas-	Palter, pōl'tūr, v. gwastraffu, ofera; ceeru [gwaeledd
Paleous, pa'lī-ūs, a. eisnog, uslyd, cibog	Paltriness, pōl'trī-nēs, n. distadled.
Palette, pāl'ēt, n. lliwfrwd paentiwr	Paltry, pōl'trī, a. distadl, gwael, gorwael
Palfrey, pāl'frī, n. crynfarch, palfre; gwilwst	Paludal, pā-lu'dāl, a. corsog, corsenog
Palinode, pāl'ī-nod, n. gwrthgan	Pampas, pām'páz, n. pl. gwastadleoedd Deheudir America
Paling, pa'ling, n. cledriad, paliswaith	Pamper, pām'pūr, vt. pesgi, mwythborthi, mwythlenwi, gorbesgi
Palisade, pāl-i-sad', Palisado, pāl-ī-sa'do, n. palis, gwalc, cledrwaith	Pamphlet, pām'f'lēt, n. lyfran, llyfryn
Palisade, pāl-ī-sad', vt. cledrgau, palisio	Pamphleteer, pām'f-lē-tī'r', n. llyfrenydd
Palish, pa'līsh, a. gowelw; llwydaidd	Pan, pān, n. pan, padell, padellan. Warming-pan, twymynai
Pall, pōl, n. elorlen: v. diflasu; llyfrâu; brawychu; cuddio ág elorlen	Panacea, pān-ā-sī'ā, n. meddyginiaeth holliachol [uŵd bara can
Palladium, pā-la'dī-ūm, n. math o fettel; diogelwch	Panada, pā-na'dā, Panado, pā-na'do, n.
Pallet, pāl'ēt, n. gwely bychan, glwth	Pancake, pāng'kak, n. cramog, cramogen, cramwyth, cramwythen [us
Palliament, pāl'yā-mēnt, n. gwisg, dilledyn, achre	Pancratic, pān-krāt'ík, a. meistrol-gamp-
Palliard, pāl'yūrd, n. godinebydd	Pancreas, pāng'krī-ās, n. cefndedyn
Palliate, pāl'ī-at, vt. esgusodi; ysgafnâu	Pandect, pān'dēkt, n. cyflawn-draethawd
Palliation, pāl-ī-a'shūn, n. esgusodiad	Pandemic, pān-dēm'ík, a. perthynol i'r bobl neu y wlad oll, cyffredinol
Palliative, pāl'ī-a-tīv, a. esgusol; es-mwythaol: n. esgusodai; llinarydd	Pandemonium, pān-dī-mō'nī-ūm, n. cythreulfa, cythreul-lys
Pallid, pāl'īd, a. gwelw, glaswyn, llwyd	Pander, pān'dūr, n. llatay, ceisydd putan: vi. gweini, nwyfweini
Pallmall, pāl-mēl', n. math o chware â phel a gordd; gordd	Panderism, pān'dūr-īzm, n. llateaeth
Palm, pām, n. palf, llawf, cledr llaw; lled llaw; balalwyf, palmwydden; buddugoliaeth: vt. palfu; cudd-dwylo; tadu ar. Palm-Sunday, Sul y blodau.	Pandiculation, pān-dīk-u-la'shūn, n. ymystwyriad, estyniad
Palm-tree, palmwydden, palmidwydden	Pandour, pān'dūr', n. traedfilwr yn Awstria [crwth
Palmer, pāmūr, n. pererin. Palmer-worm, pryf cadachog [wydden	Pandurated, pān'dūr-a-tēd, a. ar ddull
Palmetto, pāl-mēt'o, n. math o balm-	Pane, pan, n. pedroryn, cwar, cwarel
Palmiferous, pāl-mī'ūr-ūs, a. a ddygo balmwydd [palfdroediog	Panegyric, pān-ī-jēr'ík, n. canmoliaeth, arwyrain [einiol, moliannol
Palmiped, pāl'mī-pēd, a. cyfandroed,	Panegyric, pān-ī-jēr'ī-kāl, a. arwyr-
Palmister, pāl'mīs-tūr, n. llawddewin, palfswynwr	Panegyrist, pān-ī-jēr'īst, n. moliannwr
Palmistry, pāl'mīs-trī, n. palfddewiniaeth	Panel, pān'ēl, n. pennill, pronglyn o esdyllwaith; rheithrestr [gwaew
Palmy, pāmī, a. palmwyddog	Pang, pāng, n. gloes, pang, gwasgfa,
Palpability, pāl-pā-bīl'ī-tī, n. hydeiml-edd; eglurder, amlygrwydd	Panic, pān'ík, n. dychryn, arswyd, braw, echrys, echrynod, dychryn diachos: a. disymwyth, heb achos. Panic-struck, dychrynedig
Palpable, pāl'pā-bl, a. hydeiml, teimladwy; hynodol, eglur, amlwg	Panivorous, pā-nīv'o-rūs, a. yn bwyta bara, barafwyta
	Pannade, pā-nad', n. carlam; carlamiad

Pannage, păn'aj, n. mės a chyffelyb ffrwythau'r goedwig; mėsfraint, hawl i fesa
 Pannel, păn'ěl, n. panel, ystrodur, ystarn; sadell, pynoreg; cromil hebog
 Pannier, păn'yūr, n. cefn-gawell, ysporthell, pynoreg
 Panoply, păn'o-plī, n. llwyr-arfogaeth
 Pansofical, păn-sōf'ī-kāl, a. holl-ddoeth
 Pansy, păn'zī, n. y feidiog drilliw, y blodeu ofer-garu
 Pant, pânt, vi. dyheu, dychlamu; hiraethu
 Pantaloon, păn-tā-lwn', n. digrifwas, ysgentyn. Pantaloons, llodrau
 Pantheon, păn-thī'ūn, n. teml yr holl dduwiau
 Panther, păn'thūr, n. math o fwystfil rheibus
 Pantile, păn'til, n. cafn-beithynen
 Pantler, pânt'lūr, n. ceidwad y bara
 Pantofle, păn-tw'fl, n. esgid, nosesgid
 Pantology, păn-tōl'o-jī, n. hollwyddoreg
 Pantometer, păn-tōm'ī-tūr, n. ollfesurydd, hollfesurydd
 Pantomime, păn'to-mim, n. mudchware; ymystumiwr, mud-ddynwaredydd
 Pantry, păn'trī, n. bwydgell, bwytt
 Panurgy, pā-nūr'jī, n. hollfedrusedd
 Pap, pāp, n. uwd; diden, teth, bron
 Papa, pā-pā', n. tad, tada
 Papacy, pa'pā-sī, n. pabaeth
 Papal, pa'pāl, a. pabol, pabaidd
 Papaverous, pā-pāv'ūr-ūs, a. pabiol, pabioidd
 Paper, pa'pūr, n. papyr: vt. papyro; rhoi ar bapyr. Paper-maker, papyrydd, papyrwr. Paper-mill, melin bapyr. Paper-stainer, papyrliwydd. Blotting-paper, sugnbapyr. Brown paper, papyr llwyd
 Papery, pa'pūr-ī, a. papyraidd, fel papyr
 Papescent, pā-pēs'ēt, a. bywynog; meddal
 Papier-mache, pāp-ī-a-mā'sha, n. defnydd cyfansoddedig o bapyr mwydedig
 Papilio, pā-pīl'yo, n. eilier, glöyn byw
 Papilla, pā-pīl'ā (pl. papillæ, pā-pīl'ī), n. diden, y ddiđen
 Papillary, pāp'ī-lūr-ī, Papillous, pāp'ī-lūs, a. didenol, tethol, tethog
 Papist, pa'pīst, n. Pabydd [Pabaidd
 Papistical, pā-pīs'tī-kāl, a. Pabyddol
 Papistry, pa'pīs-trī, n. Pabyddiaeth
 Pappous, pāp'ūs, a. goslewog, panog
 Pappy, pāp'ī, a. suddlyd, meddal
 Papyrus, pā-pī'r'ūs (pl. papyri, pā-pī'r'ī), n. math o gawn

Par, pār, n. cyfartaledd; cydbwys, cyfwerth. At a par, yn gyfartal
 Para-, px. yn agos at, wrth ochr
 Parable, pār'ā-bl, n. dammeg, cyffelybiaeth [conawl
 Parabola, pā-rāb'o-lā, n. dosparthran
 Parabolic, pār-ā-bōl'ik, Parabolical, pār-ā-bōl'ī-kāl, a. dammegol
 Parachronism, pā-rāk'rūn-izm, n. camamseriad [en
 Parachute, pār-ā-shw't, n. dysgyn-awyr
 Paraclete, pār'ā-klīt, n. eiriolwr, dyddanydd; yr Yspryd Glān
 Parade, pā-rad', n. camas, rhodfa, rhodle, ymddangosfa, rhestrfa; ymddangosiad; rhodres; rhwysg [ieuad
 Paradigm, pār'ā-dīm, n. cynllun; cyd-Paradise, pār'ā-dis, n. paradwys, gwynfa, nef. Bird of paradise, iar wynt
 Paradisiacal, pār-ā-dī-sī'ā-kāl, a. paradwysaidd [nghyfdyb
 Paradox, pār'ā-dōks, n. amrydyb, an-Paradoxical, pār-ā-dōk'sī-kāl, a. anngyfydybus, anngyison
 Paradrome, pār'ā-drom, n. oriel agored
 Paragoge, pār'ā-go-jī, n. argymeriad
 Paragon, pār'ā-gūn, n. peth rhagor-gampus; un digymhar; math o ar-graff-lythyren
 Paragraph, pār'ā-grāf, n. dosparthran, gwahanran; dosparthnod, gwahanai (¶)
 Paraleipsis, pār-ā-lip'sis, n. crybwyllb
 Parallax, pār'āl-āks, n. amgenedigaeth
 Parallel, pār'āl-ěl, a. cyfochrol, cyfochrog; gogyfartal: n. cyfochriad, cydgyfochriad; cyfatebiad; cyfrediad; tebygiad.
 Parallels, dyblin (||)
 Parallelism, pār'āl-ěl-izm, n. cyfochredd
 Paralogism, pā-rāl'o-jizm, Paralogy, pā-rāl'o-jī, n. gauresymiad, twyllreswm, geuddadled, gwrthreswm
 Paralogize, pā-rāl'o-jiz, vi. geuddadlu, twyllresymu [gāu
 Paralysis, pā-rāl'ī-sīs, n. parlys, haint y
 Paralyze, pār'ā-liz, vt. clefychu â'r parlys
 Paralytic, pār-ā-lit'ik, a. claf o'r parlys
 Paramount, pār'ā-mūwnt, a. goruchel, uchaf, penaf
 Paramour, pār'ā-mw'r, n. cariadfab, gorddechwr; cariadferch, gorderchwraig
 Paronymph, pār'ā-nīmφ, n. gwas priodas
 Parapet, pār'ā-pēt, n. canllawfur, rhagfur [meddiant gwraig
 Paraphernalia, pār-ā-fūr-na'lī-ā, n.

PAR pāth, fāt, ēre, mēt, mā-rīne, pīn, ōrb, ōn, cūrve, cūt, tŵ = too, tŵk = took;
 Paraphrase, pār-ā-fraz, n. arallair, all-eiriad: v. aralleirio, amgeneirio, all-eirio [alleiriwr
 Paraphrast, pār-ā-fräst, n. alleiriwr, ar-Paraphrastical, pār-ā-fräs'tī-kāl, a. ar-alleiriol [iwr
 Parasite, pār-ā-sit, n. gwenieithiwr, truth-Parasitic, pār-ā-sit'ik, Parasitical, pār-ā-sit'ī-kāl, a. gwenieithgar, truthiol
 Parasol, pār-ā-sol', n. heulrod
 Parasynexis, pār-ā-sī-nēk'sis, n. cwrddbach; cynulleidfa ddirgel
 Parathesis, pā-rāth'ī-sis, n. atddodiad
 Parboil, pār'bōil, vt. goferwi, lledferwi
 Parcel, pār'sēl, n. swp, syryn; cyfran; twysgen: vt. rhanu, dyranu, amranu
 Parcener, pār'sī-nūr, n. cydetifedd, cydetifeddes
 Parcenery, pār'sī-nūr-ī, n. cydfeddianniad
 Parch, pārtsh, v. crasu, deifio, golosgi, crasboethi
 Parched, pārtsh, a. cras, crasboeth, crasedig, golosgedig, wedi ei losgi
 Parchment, pārtsh'mēt, n. crasgroen, ysgrifgroen, memrwn
 Pard, pārd, n. llewpart
 Pardon, pār'dn, n. maddeuant: vt. maddeu. I beg your pardon, maddeuwch i mi, esgusodwch fi
 Pardonable, pār'dn-ā-bl, a. maddeuadwy
 Pare, pēr, vt. didoni, pilio, digroeni
 Paregoric, pār-ī-gōr'ik, a. llinarol, llonyddol: n. meddyginaeth esmwythaol
 Parenchymous, pār-ēn'kī-mūs, a. yspyngaidd, meddal
 Parent, pēr'ēt, n. tad neu fam, rhiant.
 Parents, rhieni
 Parentage, pēr'ēn-taj, n. rhieniaeth, tadogaeth; gwelygordd, gwehelyth; bonedd, âch, cyfathrach
 Parental, pā-rēn'tāl, a. rhieniol; tyner
 Parenthesis, pā-rēn'thī-sis (pl. parentheses, pā-rēn'thī-siz), n. cromfach, ymsang, gwahansang (); ymadrodd rhwng cromfachau
 Parenticide, pā-rēn'tī-sid, n. rhiannladdiad; rhiannleiddiad, tadleiddiad, mamleiddiad
 Parer, pēr'ūr, n. offeryn digroeni, piliedydd
 Parergy, pār'ūr-jī, n. peth disylwedd
 Parget, pār'jēt, n. cymrwd, plastr
 Parhelion, pār-hī'lī-ūn, n. rhrith-haul, ffug-haul
 Parietal, pā-ri-ī'tāl, a. ystlys furïol
 Parility, pā-ril'ī-tī, n. tebygolrwydd
 Paring, pēr'ing, n. piliad, piliant; crawen. Parings, pilion, naddion, creifion
 Parish, pār'ish, n. plwy, plwyf: a. plwyfol, plwyfogy
 Parishioner, pā-rish'yün-ūr, n. plwyfwr, un plwyfogy
 Parisian, pā-rizh'yän, n. Parisiad
 Parisyllabic, pār-ī-sī-läb'ik, a. cydsyllafol
 Paritor, pār'ī-tūr, n. rhingyll, gwysiwyr
 Parity, pār'ī-tī, n. cymeintiolaeth, cyfartalrwydd, cydraddolrwydd, cystadledd
 Park, pārk, n. parc, cae, hyddgae, ceufaes
 Parley, pār'li, n. cyffafaredd: vi. cynadlu
 Parliament, pār'li-mēt, n. senedd, seneddwr. Parliament-house, senedd-dy. Act of parliament, gweithred seneddol. Member of Parliament, seneddwr
 Parliamentary, pār-li-mēn'tür-ī, a. seneddol
 Parnassian, pā-nāsh'än, a. awenyddol
 Parlour, pār'lūr, n. parlawr, gwestgell
 Parlous, pār'lūs, a. llymgraft, cyffrws
 Parochial, pā-ro'kī-äl, a. plwyfol
 Parochiality, pā-ro-kī-äl'ī-tī, n. plwyfoliaeth [trawswawdiad
 Parody, pār'o-dī, n. trosglwydd-wers;
 Parole, pār-rol', n. gair; addewid: a. geiriol [gyfenw
 Paronomasia, pār-o-no-mā'zhī-ä, n. ar-Paronymous, pā-rōn'ī-mūs, a. tebyg i enw neu air arall [bychan
 Paroquet, pār-o-kēt', n. math o barot
 Parotid, pār-rōt'id, a. poerol, glyfoerol
 Parotis, pā-ro'tis, n. glyfoer-chwaren
 Paroxysm, pār'ōks-izm, n. cyrch, poethgrych [iadol, tadladdol
 Parricidal, pār'ī-si-däl, a. rhiannladd-Parricide, pār'ī-sid, n. rhiannladdiad, tadladdiad, mamladdiad; rhiannleiddiad, tadleiddiad, mamleiddiad
 Parrot, pār'üt, n. yr aderyn parot
 Parry, pār'ī, v. gochelyd, troi heibio
 Parse, pārs, vt. dosparth-dreiglo geiriau
 Parsimonious, pār-sī-mō'nī-ūs, a. anhael, arbedus, llawgaead, cybyddol
 Parsimony, pār'sī-mün-ī, n. crintachrwydd, cybydd-dod
 Parsley, pār'slī, n. perlllys, persli. Hedge-parsley, troed y cyw
 Parsnep, pār'snēp, Parsnip, pār'snīp, n. panas, llysiâu Gwyddelig. Cow-parsnip, efwr
 Parson, pār'sn, n. offeiriad, periglor
 Parsonage, pār'sün-aj, n. perigloriaeth; periglordy, periglorfa

Part, pâr't, n. rhan, cyfran, darn, dryll; peth; parth, parthed; tu, plaid, ochr: v. rhanu, parthu; gwahanu; ymranu; ymwahanu; ymadael. A man of parts, dyn doniog. Parts of speech, rhanau ymadrodd. Parts, doniau. To part with, ymadael â	Parturient, pâr-tu'r'î-ënt, a. ar esgor, yn esgor
Partage, pâr'taj, n. rhaniad, ymadawiad	Party, pâr'tî, n. un, rhyw un, person; plaid. Party-coloured, amlwiog, brithliw [fannau
Partake, pâr-tak', v. cyfranu; cyfranogi	Parulis, pâ-rw'lis, n. llynoryn yn y gorch
Partaker, pâr-ta'kûr, n. rhanwr, cyfranwr	Parvenu, pâr'vî-nu, n. newyddian
Parterre, pâr-têr', n. blodeufa gardd, blodeu ardd	Parvitude, pâr'vî-tud, Parvity, pâr'vî-tî, n. bychander, bychanedd
Partial, pâr'shâl, a. rhanol, hanerog; pleidiol, untuog, tueddol	Pas, pâ, n. cam; blaenoriaeth
Partiality, pâr-shî-âl'î-tî, n. tueddgarwch, pleidgarwch, tueddolrwydd	Paschal, päs'käl, a. perthynol i'r Pasc
Partialize, pâr'shâl-iz, vt. ochri, pleidio, tueddoli, gwyro barn [ran	Pasquin, päs'kwîn, Pasquinade, päs-kwî-nad', n. duchan, gogan-gerdd
Partially, pâr'shâl-î, ad. yn dueddgar; o	Pass, päs, n. cyflwr, sefyllfa; culffordd, bwlech; taith drwydded, mudwarant; brath: v. myned heibio, hwntu, pasio; cerdded; gwario, treulio; hwylio yn mlaen; brathu. To bring to pass, dwyn i ben. To pass for, myned yn lle. To pass over, gadael allan, esgeuluso. To pass sentence, rhoddi barn. To pass away time, dyfyr'u'r amser. To pass through, trwyddedi.
Partible, pâr'tî-bl, Partable, pâr'tâ-bl, a. rhanadwy [n. cyfranogwr	Passing-bell, cnul, cnull, marwglôch
Participant, pâr-tîs'î-pânt, a. cyfranog:	Passable, päs'â-bl, a. hylwybr; derbynol
Participate, pâr-tîs'î-pat, vt. cyfranogi, cael rhan [ranogiad	Passado, pâ-sá'do, n. gŵth, ysgwthiad
Participation, pâr-tîs-î-pa'shün, n. cyfr-	Passage, päs'aj, n. tramwyfa, mynedfa, ffordd; trosglwydd-daith, taith; trosglwydd; mynediad; ymadrodd, gwers, rhan o gyfansoddiad [wywr
Participator, pâr-tîs'î-pa-tür, n. cyfran-	Passenger, päs'ên-jür, n. teithydd, tram-
Participial, pâr-tî-sîp'yäl, a. rhan-gymer-	Passeres, päs'ür-îz, n. pl. golfanod, adar yn cyffelyb i adar y tô [deb
Participle, pâr'tî-sîp-l, n. rhan-gymeriad, cyfranaï	Passibility, päs-î-bîl'î-tî, n. dyoddefol-
Particle, pâr'tî-kl, n. dryllyn, rhenyn, dernyn, mymryn, dôs, tipyn, til, ith; banyn, arsill. Broken particles, malurion	Passible, päs'î-bl, a. dyoddefadwy
Particular, pâr-tîk'u-lür, a. neillduol, pennodol, hysbysol, enwedigol, priodol: n. pwnc, pen, dosben, peth neillduol. Particulars, manylion	Passion, päs'hün, n. dyoddefaint, goddefiant; gŵyn, nwyd; drygnwyd, poethwÿn, gwylltineb; tra-serch, criad.
Particularity, pâr-tîk-u-lär'î-tî, n. neillduoldeb, rhaledd, pennodoldeb	Passion-week, yr wythnos cyn y Pasc. Iliac passion, enofa y coluddion mân
Particularize, pâr-tîk'u-lür-iz, vt. penodi, dosbenu [iad	Passionate, päs'hün-at, a. hyddig, hwnnyd-wyllt, tanllyd; tra-serchus, chwannog
Parting, pâr'tîng, n. gwahaniad; ymadael	Passive, päs'iv, a. goddefol, goddefgar
Partisan, pâr'tî-zän, n. pleidiwr, pleiddyn, cefnogwr; cad-bleidydd; gwaewffon, ffonbig, rhethren	Passiveness, päs'iv-nës, n. goddefgarwch
Partition, pâr-tîsh'ün, n. rhaniad; pared, canolfur: vt. gwahanranu, dosbarthu	Passover, päs'o-vür, n. y Pasc
Partlet, pâr'tlèt, n. gwddfodorch; iar	Passport, päs'pört, n. taithdrwydded
Partly, pâr'tlî, ad. mewn rhan, o ran	Past, päst, a. wedi myned heibio: pre. wedi. Half-past two o'clock, haner awr wedi dau ar y gloch
Partner, pâr'tür, n. cyfaill, cydymaith; cydwr, cyfranogwr, cyd-drinwr	Paste, past, n. toes; glyd; syth: v. glydio
Partnership, pâr'tür-shîp, n. cyfranogaeth, cyd-driniaeth, cyndeithas	Pasteboard, past'bô'rd, n. papyr-fwrdd, glydlen
Partridge, pâr'trij, n. coriar, petrusen, clugiar	Pastern, päs'türn, n. egwyd march, deilw
	Pastil, päs'tîl, n. glyd-baent
	Pastille, päs-tîl', n. glyd perarogl' bed-
	Pastime, päs'tim, n. chware. d'

PAW pāth, fāt, ēre, mēt, mā-rīne, pīn, ōrb, ōn, cūrve, cūt, tṵ=too, tṵk=took;

Pastor, pās'tūr, n. bugail; gweinidog

Pastoral, pās'tūr-āl, a. bugeilaidd, bugeil-iol: n. bugeilgerdd

Pastry, pas'trī, n. cyffeithfwyd, pasteiydd-iaeth. Pastry-cook, cyffeithydd, pas-teiwr [porfadwy]

Pasturable, pās'tshu-rā-bl, a. hybawr,

Pasturage, pās'tshu-raj, n. porfād

Pasture, pās'tshūr, n. porfa, porfel: v. porfāu, porfelu, poriannu, pori. Pasture-ground, tir porfa

Pasty, pas'tī, n. pastai

Pat, pāt, vt. godaro, enithio, palfio: n. palfod, cis, ysgafu-gīs, enith: ad. yn dra addas: a. llwyr berthynol

Pataca, pāt'ā-kā, Patacoon, pāt-ā-kw'n', n. bath Yspaenaidd, 4s. 3c.

Patch, pātsh, n. clwt, clytyn; ysmot: vt. clytio, cyweirio; ysmotio

Pate, pat, n. siol, pen, copa, iād

Patefaction, pāt-ī-fāk'shūn, n. dynoeth-iaid, amrygiad, cŷlŷeddiad

Patella, pā-tēl'ā, n. padell pen y glin

Paten, pāt'ēn, n. cymunddysgl

Patent, pāt'ēnt, n. breintlythyr: a. breintlythyrog; agored, cyhoedd; priodol

Patentee, pāt-ēn-tī', n. meddiannydd breintlythyr

Paterero, pāt-ī-rē'rō, n. cyflegr bychan

Paternal, pā-tūr'nāl, a. tadol, tadaidd, tadwy [aeth]

Paternity, pā-tūr'nī-tī, n. tadogaeth, tad-

Paternoster, pāt-ūr-nōs'tūr, n. gweddi yr Arglwydd

Path, pāth (pl. path, pāthz), n. llwybr, ffordd, rhodle. A beaten path, llwybr sathredig

Pathetic, pā-thēt'īk, Pathetical, pā-thēt'ī-kāl, a. pēr-wresog; traserchus, serchgynhyrfiol, cynhyrfiol, deffrōus

Pathless, pāth'lēs, a. dilwybr, diffordd, disathr, ansathredig

Pathology, pā-thōl'ō-jī, n. clefyd-ddysg

Pathos, pā'thōs, n. poethder, teimlad, gwres, angerddoldeb

Pathway, pāth'wa, n. troedffordd, arlwybr

Patible, pāt'ī-bl, a. dygadwy, goddefadwy

Patience, pā'shēns, n. amynedd

Patient, pā'shēnt, a. amyneddgar, goddef-gar: n. dyn claf, claf, goddefydd

Patin, pāt'in, n. cymunddysgl

Patois, pāt'wō, n. priodiaith y werin, gweriniaith [dad, patriarch

Patriarch, pā'trī-ār'k, n. prif-dad, uchel-

Parility, pā-va-trī-ār'kāl, a. patriarchaidd

Patriarchate, pā-trī-ār'kat, Patriarchy, pā-trī-ār'kī, n. patriarchaeth, uchel-dadaeth, prifdadaeth

Patrician, pā-trīsh'ān, n. boneddwr: a. dyledog, boneddig, boneddigaidd

Patrimonial, pāt-rī-mō'nī-āl, a. treftadol

Patrimony, pāt'rī-mūn-ī, n. etifeddiaeth, treftad, treftadaeth

Patriot, pā'trī-ūt, n. gwladgarwr

Patriotic, pā-trī-ōt'īk, a. gwladgar, gwladgarol

Patriotism, pā'trī-ōt-īzm, n. gwladgarwch

Patrol, pā-trol', n. cŷlchwylwyr, nos-wylwyr: vi. cŷlchwyllo, cŷlholygu

Patron, pā'trūn, n. noddwr, cyneilydd

Patronage, pā'trūn-aj, n. tadogaeth; nawdd, ymgeledd

Patronal, pā'trūn-āl, a. tadogol, noddol

Patroness, pā'trūn-ēs, n. noddwraig

Patronize, pā'trūn-iz, vt. noddi, amgeleddu, amddiffyn

Patronymic, pāt-ro-nīm'īk, n. tadenw

Pattelliform, pā-tēl'ī-fōrm, a. ar dull padell

Patten, pāt'ēn, n. gwadn colofn; ffollach. Patten-maker, ffollachwr

Patter, pāt'ūr, vi. pwyo, trwstguro

Pattern, pāt'ūr, n. llun, cynllyn, cynnelw

Paucity, pō'sī-tī, n. anamllder, anamledd

Paunch, pāntsh, n. poten; ceudod, bol, perfedd: vt. cestio; diberfeddu

Pauper, pō'pūr, n. tlotyn, rheidusyn, un tlawd [tloti]

Pauperism, pō'pūr-īzm, n. rheidusedd,

Pause, pōz, n. seibiant; ymsafiad, safiad, peidiad, paid, gorphwysiad, saib: vi. gorphwys; ystyried

Pavan, pā'vān, n. math o daplas

Pave, pav, vt. palmantu, llorio, llasarnu, llechlorio

Pavement, pav'mēnt, n. palmant, llech-lawr, llawr ceryg

Pavier, pā'vī-ūr, n. llasarnwr, lloriwr

Pavid, pāv'īd, a. ofnus

Pavilion, pā-vīl'yūn, n. pabell, teyrn-babell

Pavo, pā'vo, Pavone, pā-von', n. paen, pawan [aidd]

Pavonine, pā-vō'nin, a. paenaidd, peun-

Paw, pō, n. palf, pawen; crafanc: v. palfu, pawenu, palf-chwarae

Pawn, pōn, n. gwystl, arwystl; un o werin y wyddbwyll: vt. gwystlo, arwystlo; pridio [fasgnachwr]

Pawnbroker, pōn'bro-kūr, n. gwystl-

Pawnee, pō-nī', n. gwystlwr

Pay, pa (pt. & pp. paid), vt. talu; gwobrwyo : n. tâl, cyflog
 Payable, pa'â-bl, a. dyledus, taladwy
 Paymaster, pa'mäs-tür, n. taliedydd; pentalwr [aeth
 Payment, pa'mënt, n. tâl, taliad, taledig
 Pea, pî, n. pysen. Peas-cod, Peas-shell, coden pÿs. Peas-haulm, callod. Peas-porridge, cawl pÿs. Chick-peas, pÿs y llygod. Heath-peas, pÿs y coed
 Peace, pîs, n. hedd, heddwch, tanc, tangnef, tangnefedd, taw: int. ust! gosteg! Peace-maker, tangnefeddwr.
 Peace-offering, heddoffrwm, heddaberth. Peace-officer, heddswyddog. Clerk of the peace, ysgrifenydd yr heddwch. Hold your peace, taw â son. Justice of the peace, heddynad
 Peaceable, pî'sâ-bl, a. heddychlawn; dystaw; tangnefeddus
 Peaceableness, pî-sâ'bl-nës, n. heddychlonedd [lawn
 Peaceful, pîs'fwl, a. heddychol, heddych
 Peach, pîsh, n. eiryren wlanog, afal gwlanog. Peach-coloured, gwynrudd
 Peachick, pî'tshîk, n. cyw pawan
 Peacock, pî'kök, n. ceiliog pawan, paen
 Peahen, pî'hën, n. iar bawen, paenes
 Peak, pîk, n. pig; crib, blaenwedd, copa, ban: vi. nychu, salweddu; llechian
 Peal, pîl, n. cydol-sain clych, darystain: v. cydseinio; darysteinio
 Pean, pî'an, n. mawlgan
 Pear, pë'r, n. gelleigen, peran, rhwynen. Pear-tree, pren rhwyn, gelleigwydden
 Pearl, pûrl, n. myrieriden, perl, gem: math o argraff-lythyren. Mother of pearl, cragen llymarch. Seed-pearls, perlau mân
 Pearly, pûr'lî, a. myrieridaidd; perlaidd
 Pearmain, pë'r-man', n. math o afal pë
 Peasant, pëz'ânt, n. gwladeiddiwr, taiogant, taioges
 Peasantry, pëz'ânt-rî, n. y gwladeiddwÿr, y gwledigion, pobl y wlad, y gwreng, y taiogiaid
 Peat, pît, n. mawn, cleiad
 Pebble, pëb'l, Pebblestone, pëb'l-ston, n. gröyn, caregan
 Pebbly, pëb'lî, a. llawn caregos
 Peccability, pëk-â-bîl'î-tî, n. hybechedd
 Peccable, pëk'â-bl, a. a allo bechu, hybech [bychan
 Peccadillo, pëk-â-dîl'ô, n. beijn, pechod
 Peccancy, pëk'an-sî, n. pechaduruswydd, drygnawsedd, drygioni

Peccant, pëk'ânt, a. beius, pechadurus
 Peccavi, pë-ka'vî, vi. pechais: n. dull o ofyn maddeuant
 Peck, pëk, n. pec, pecaid wyth chwart; cnoc: vt. pigo; cnocellu. To peck at, beio ar, ymhel â, blino
 Pecker, pëk'ür, n. pigwr, cnocell
 Pectinated, pëk'tî-na-tëd, a. crib-ddull
 Pectoral, pëk'tür-äl, a. dwyfronol: n. addurn y ddwyfron, dwyfroneg
 Peculate, pëk'u-lat, v. twyllo y wlad
 Peculation, pëk-u-la'shün, n. celciad, lladrad, yspeiliad y trysor cyffredin
 Peculator, pëk'u-la-tür, n. yspeiliwr arian y wlad
 Peculiar, pî-ku'li-ür, a. priod, priodol; neillduol, unig; arbenig: n. peth neillduol; plwy gwahan-freinniol
 Peculiarity, pî-ku-li-är'î-tî, n. neillduolrwydd; peth neillduol
 Peculiarly, pî-ku'li-ür-lî, ad. yn arbenig, yn neillduol
 Pecuniary, pî-ku'nî-ür-î, a. perthynol i arian, arianol
 Ped, pëd, n. panelyn, basgedan; pyniorg
 Pedagogue, pëd'â-gög, n. athraw plant, ysgolfeistr [organ
 Pedal, pëd'äl, a. troedol: n. troedbib
 Pedant, pëd'ânt, n. crâch-athraw, crâch-ysgolâig, coeg-athraw
 Pedantic, pî-dän'tik, a. coeg-ddysgedig
 Pedantry, pëd'än-trî, n. coeg-ddysgeidiaeth [werthu
 Peddle, pëd'l, v. ofera, simera; man-
 Pederast, pëd'ür-äst, n. gwrryw-gydiwr
 Pederasty, pëd'ür-äs-tî, n. gwrryw-gydiad
 Pederero, pëd-î-rî'r'ô, n. cyflegwr bychan
 Pedestal, pëd'ës-täl, n. bonsang
 Pedestrial, pî-dës'tri-äl, a. troedol
 Pedestrious, pî-dës'tri-üs, a. pedestraidd
 Pedestrian, pî-dës'tri-än, n. pedestrydd, gwr traed: a. troedol [deilen
 Pedicle, pëd'î-kl, n. coes neu paledryn;
 Pedicular, pî-dîk'u-lür, Pediculous, pî-dîk'u-lüs, a. lleuog
 Pedigree, pëd'î-grî, n. âch, achwedd, gwelygordd, bonedd [coronig
 Pediment, pëd'î-mënt, n. talog, talfa,
 Pedler, pëd'lür, n. gwicawr, gwicawr, taithfasgnachydd [crachfasgnach
 Pedlery, pëd'lür-î, n. crâch-nwyddau;
 Pedling, pëd'ling, n. crâch-fasgnach-aeth; fflloreng, oferedd: a crâch-fasgnachol, gwicol; gwael
 Pedobaptism, pî-do-bäp'tîzim, n. bedydd babanod

PEN	pāth, fāt, ēre, mēt, mā-rīne, pīn, ōrb, ōn, cūrve, cūt, tṵ = too, tṵk = took ;
Pedobaptist	pī-do-bāp'tist, n. bedyddiwr plant
Pedometer	pī-dōm'ī-tūr, n. camfesurydd
Peel	pīl, n. pīl, croen, rhisgl ; ffwrn-bren, rhawlech : v. pilio, digroeni, dirisglo
Peep	pīp, n. cipolwg, cipedrychiad : vi. cipedrych ; yspeio. Peep of day, toriad y wawr
Peer	pīr, n. pendefig, dyledog, arglwydd ; cyfurddor, cydradd : v. cil-ymiddangos
Peerage	pī'r'aj, Peerdom, pī'r'dūm, n. cyfurddoriaeth, dyledogaeth, pendifigaeth
Peeress	pī'r'ēs, n. pendefiges
Peerless	pī'r'lēs, a. digymhar, digyffelyb
Peevish	pī'vīsh, a. gwenwynllyd, croes, anfoddog, anniddig
Peevishness	pī'vīsh-nēs, n. drygnaws, anniddigrwydd
Peg	pēg, n. hoel bren, pin pren ; ebillen, ebill : vt. pinio, ebillio
Pegasus	pēg'ā-sūs, n. march adeiniog, ehedfarch yr Awen
Pelf	pēlf, n. mwnws, mwnai ; cyfoeth
Pelican	pēl'ī-kān, n. math o aderyn, y pelican
Pelisse	pī-līs', n. ysgin, pilys
Pell	pēl, n. croen, croen bwystfil. Clerk of the pells, swyddwr yn y trysorlys
Pellage	pēl'aj, n. treth ar grwyn
Pellet	pēl'ēt, n. pelen, pellen
Pellicle	pēl'ī-kl, n. pilen, teneugroen
Pellitory	pēl'ī-tūr-ī, n. pelydr. Pellitory of the wall, llysiau'r pared
Pellmell	pēl-mēl', ad. yn llwyr ddidrefn, blith draphlith, ben draphen ; yn derfysglyd [clauer
Pellucid	pē-lu'sīd, a. tryloew, gloew,
Pelt	pēlt, n. gīn, croen bwystfil, īr-groen ; tarawiad : vt. lluchio, taflu ; baeddu
Peltmonger	pēlt'mūng-gūr, n. gīn-werthwr
Peltry	pēl'trī, n. īr-grwyn, crwyn, gīnion
Pelvis	pēl'vīs, n. gwaelod y bol
Pembroke	pēm'brok, n. Penfro. Pembroke-shire, Sīr Benfro, Dyfed
Pen	pēn, n. pin, ysgrifell ; lloc, ffald, clwyd : vt. ysgrifenu : vt. (pt. & pp. <i>pent</i>) , llocio, corlanu, ffaldio, cau i mewn, argau
Penal	pī'nāl, a. cospol, penydiol
Penalty	pēn'āl-tī, n. poen, cosp ; cospedigaeth ; dirwy, fforfed, camgwyl ; penyd
Penance	pēn'āns, n. penyd ; cyfarchwel
Pence	pēns, n. pl.—Penny. Eighteen pence, deunaw. Seventeen pence, deunaw ond ceiniog, dwy geiniog ar bumtheg. Sixteen pence, pedair grot, un geiniog ar bumtheg
Pencil	pēn'sīl, n. pwyntel : v. darlunio
Pendant	pēn'dānt, n. dibynnydd ; clustdlws ; banerig [iad
Pendence	pēn'dēns, n. dibyniad ; tuedd-
Pendency	pēn'dēn-sī, n. dibynrwydd ; annberfyiniad, oediad, gohiriad
Pendent	pēn'dēnt, a. dibynol, yn ngrhōg
Pending	pēn'dīng, a. yn dibynu ; yn ddiderfynedig, heb ei derfynu ; dan ystyriaeth [ngrhōg
Pendulous	pēn'du-lūs, a. dibynaid, yn
Pendulum	pēn'du-lūm, n. dibynai, pendyl, dringlyn
Penetrability	pēn-ī-trā-bīl'ī-tī, n. hydreddwydd
Penetrable	pēn-ī-trā-bl, a. treiddiadwy, hydraid, ddirnadwy
Penetrancy	pēn-ī-trān-sī, n. treiddrwydd
Penetrant	pēn-ī-trānt, a. treiddiol, synwyrgraff, craff
Penetrate	pēn'ī-trat, v. treiddio, trywanu ; amgyffred, dirnad
Penetration	pēn-ī-trā'shūn, n. treiddiad, athreiddiad ; craffder, amgyffred, dirnadaeth
Penetrative	pēn'ī-tra-tīv, a. treiddiol ; craff, synwyrgraff
Penguin	pēn'gīwin, n. aderyn tebyg i ŵydd ; math o ffrwyth
Peninsula	pī-nūn'su-lā, n. meis-ynys, gorynys
Penitence	pēn'ī-tēns, n. edfeirwch, edifeirād
Penitent	pēn'ī-tēnt, a. edifar, edifarws, edifeiriol : n. edifeiriolwr, edifarāwr. Penitents, edifeiriolion, edifeiryddion, edifeirywr
Penitential	pēn-ī-tēn'shāl, a. edifeiriol
Penitentiary	pēn-ī-tēn'shūr-ī, n. penydiwr ; penydfa, edifeirdy
Penknife	pēn'īf, n. pin-gyllell, cyllellan
Penman	pēn'mān, n. ysgrifenydd
Penmanship	pēn'mān-shīp, n. ysgrifenddawn ; ysgrifenwaith
Pennant	pēn'ānt, n. penwn, banerig
Pennate	pēn'at, a. adeiniog, asgellog
Penner	pēn'ūr, n. ysgrifenydd, cyfansoddwr
Penniless	pēn'ī-lēs, a. digeiniog, diarian
Pennon	pēn'ūn, n. banerig, penwn

- Penny, pĕn'î (pl. *pence*), n. ceiniog.
 Two-pence, dwy geiniog. Two pennies, dau ddarn ceiniog. A two-penny loaf, torth ddwy geiniog
 Pennyroyal, pĕn-î-rôl'âl, n. llysiâu'r coludd, llysiâu'r gwaed
 Pennyweight, pĕn'î-wat, n. 24 o ronynau
 Pennywise, pĕn'î-wiz, a. call am geiniog
 Pennyworth, pĕn'î-würth, n. ceiniog-werth, gwerth ceiniog
 Pensile, pĕn'sil, a. dibynol; llethrog
 Pension, pĕn'shün, n. tâl-wobr, segurđâl
 Pensionary, pĕn'shün-ür-î, n. un yn derbyn tâl-wobr; swyddog dinasaidd: a. yn derbyn tâl-wobr
 Pensioner, pĕn'shün-ür, n. gwobrwas; cyflogddyn
 Pensive, pĕn'siv, a. athrist, prudd, trist, galarus; meddylgar, myfyrgar
 Pensive, pĕn'siv-nĕs, n. prudd-der, tristwch; myfyrgarwch
 Pent, pĕnt, pt. & pp.—Pen. Pent-house, penty; rhagdo
 Pentacapsular, pĕn-tâ-kăp'su-lür, pum-cellog [offeryn pumtant
 Pentachord, pĕn'tâ-körd, n. pumtant
 Pentagon, pĕn'tâ-gün, n. pumochr
 Pentagonal, pĕn-tăg'o-năl, a. pumochrog
 Pentahedrous, pĕn-tâ-hî'drüs, a. pum-ochrol [pumbanog
 Pentameter, pĕn-tăm'î-tür, n. mesur
 Pentangular, pĕn-tăng'gu-lür, a. pum-onglog [pum llyfr Moses
 Pentateuch, pĕn'tâ-tuk, n. y pumlyfr
 Pentecost, pĕn'ti-köst, n. y pentecost; y Sulgwyn [ond un
 Penultima, pĕ-nŭl'ti-mă, n. y sill olaf
 Penumbra, pĕ-nŭm'bră, n. gogysgod
 Penurious, pĕ-nu'r'î-üs, a. cybyddyld, llawgaead, anhael, crintach
 Penuriousness, pĕ-nu'r'î-üs-nĕs, n. crin-tachrwydd
 Penury, pĕn'u'r-î, n. tlodi, anghen, eisiau
 Peony, pĕ'o-nĕ, n. blodau'r brenin
 People, pĕ'pl, n. pobl, pobloedd, măon; cenedl. Common people, gwerinos
 Pepastic, pĕ-păst'ik, n. meddyginiaeth i gynorthwyo treuliad bwyd
 Pepper, pĕp'ür, n. poethlys, poethrawn, pubyr
 Peppercorn, pĕp'ür-körn, n. pupren, poethronyn [poethion
 Peppermint, pĕp'ür-mint, n. mintys
 Peppery, pĕp'ür-î, a. poeth, nawswyllt
 Peptic, pĕp'tik, a. treulbair
 Per-, Pel-, px. yn hollol, trwodd
 Peracute, pür-ă-kut', a. tra llyn
 Peradventure, pür-ăd-vĕn'tshür, ad. ysgatfydd, efallai
 Peragate, pür-a'grat, vt. trawswibio
 Peragation, pür-ă-gra'shün, n. trawswigrwydriad, trawswibio
 Perambulate, pür-ăm'bu-lat, vt. amdramwy, amdeithio, cylchrodio, cerdded drwy
 Perambulation, pür-ăm-bu-la'shün, n. amdramwyad, cylchrodriad
 Perceivable, pür-siv-ă-bl, Perceptible, pür-sĕp'ti-bl, a. dirnadwy, canfodadwy, gweladwy, amgyffredadwy, dealladwy
 Perceive, pür-siv', vt. dirnad, canfod, gweled, amgyffred, deall
 Percentage, pür-sĕn'taj, n. canttoll
 Perceptibility, pür-sĕp-ti-bil'î-ti, n. canfodrwydd, dirnadwyaeth, hyweledd; hydeimledd
 Perception, pür-sĕp'shün, n. dirnadaeth, syniad, gwelediad, amgyffredriad
 Perceptive, pür-sĕp'tiv', a. dirnadol, gwelediannol, syniol
 Perch, pürtsh, n. gwialen, erwydden, dilerbren, tudlath; ystengaid; trawslath, clwyd, trawswigrwyn; trosten, gweilging; math o bysgodyn: v. disgyn neu eistedd ar drawsbren
 Perchance, pür-tshăns', ad. ysgatfydd, efallai [craff, canfyddol
 Percipient, pür-sip'yĕnt, a. gweliadol
 Percolate, pür'ko-lat, v. hidlo, llwyr-hidlo
 Percolation, pür-ko-la'shün, n. hidlad, llwyr-hidliad
 Percuss, pür-küs', vt. taro, gwrthdaro
 Percussion, pür-küş'ün, n. tarawiad, gwrthdarawiad, ergydiad, targ
 Perdition, pür-dĕsh'ün, n. colledigaeth
 Perdue, pür'du, a. yn geledig, dan gĕl
 Perdulous, pür'du-lüs, a. colledig, gwrthodedig
 Perdurable, pür'du-ră-bl, a. hirbarâs
 Perdurant, pür-du-ra'shün, n. hirbarâd, bythbarâd [crwydro
 Peregrinate, pĕr'î-grĕ-nat, vt. pererinio
 Peregrination, pĕr-î-grĕ-na'shün, n. pereriniad, crwydriad
 Peregrine, pĕr'î-grĕn, a. pellenig; dyeithr
 Perempt, pĕ-rĕmt', vt. lladd, dyfetha; gwasgu [diddymiad
 Peremption, pĕ-rĕm'shün, n. dyfethiad
 Peremptorily, pĕr'ĕm-tür-î-lĕ, ad. yn bendant, yn ddiôs, yn ddiag
 Peremptory, pĕr'ĕm-tür-î, a. pendant; meistrolaidd

PER	pāth, fāt, ēre, mēt, mā-rīne, pīn, ōrb, ōn, cūrve, cūt, tṵ=too, tṵk=took;
Perennial	pē-rēn'yāl, a. tryflyyddol, blwydd-baraol; bythol, gwastadol
Perennity	pē-rēn'ī-tī, n. bytholwrydd
Perfect	pūr'fēkt, a. perffaith, cyfan, cyfan-gwbl; pur, difai; gorphenedig: vt. perffeithio; gorphen, cwblāu; gwneuthur yn hyfedr, perffeith-addysgu
Perfection	pūr-fēk'shūn, n. perffeith-rwydd, cyflawnder [ffeithioli]
Perfectionate	pūr-fēk'shūn-at, vt. per-
Perfective	pūr-fēk'tiv, a. perffeithiadol
Perfectness	pūr'fēkt-nēs, n. perffeithder; hyfedredd, medredd [us]
Perfidious	pūr-fīd'yūs, a. twyllgar, brad-
Perfidiousness	pūr-fīd'yūs-nēs, Perfidy, pūr'fī-dī, n. bradoldeb, bradwruswydd, bradwch, brād, twyll
Perflate	pūr-flat', vt. chwythu drwy, trychwythu
Perforate	pūr'fo-rat, vt. tyllu; trydyllu; trywanu [treiddiad]
Perforation	pūr-fo-ra'shūn, n. trydylliad,
Perforator	pūr'fo-ra-tūr, n. trydylydd
Perforce	pūr-fō'r's', ad. trwy drais
Perform	pūr-fōrm', v. cyflawni, gorphen, cwblāu; gwneyd, gwneuthur; chwareu. To perform one's promise, cyflawni ei air, talu ei adduned
Performance	pūr-fōr'māns, n. cyflawniad, cwblād; gorchwyl, gwaith, gweithred, gweithrediad
Performer	pūr-fōr'mūr, n. cyflawnwr, gweithredydd; chwarydd
Perfume	pūr-fum', n. perarogl: vt. perarogli
Perfumer	pūr-fu'mūr, n. peraroglydd
Perfunctoriness	pūr'fūngk-tō'r-ī-nēs, n. diofalwch [esgeulus]
Perfunctory	pūr'fūngk-tō'r-ī, a. diofal,
Perfuse	pūr-fuz', vt. taenu; ystaenio
Perfusion	pūr-fu'zhūn, n. taenelliad
Perhaps	pūr-hāps', ad. ysgatfydd, efallai
Peri-	px. amgylch ogyrch
Pericardium	pēr-ī-kār'dī-ūm, n. pilen y galon [siol]
Pericranium	pēr-ī-kra'nī-ūm, n. pilen y
Periculous	pē-rīk'u-lūs, a. peryglus, enbyd
Perigee	pēr'ī-jī, n. daearniesiant
Perihelion	pēr-ī-hī'lī-ūn, n. haulnesiant
Peril	pēr'īl, n. perygl, enbydrwydd, pyd: v. enbydu, peryglu
Perilous	pēr'īl-ūs, a. peryglus, enbydus, pydus [cylch, cwmpas]
Perimeter	pē-rīm'ī-tūr, n. cylchedd,
Period	pī'r'ī-ūd, n. cyfanwers; diwedd-nod (.); pennod; yspaid, cyfnod, chwyl; cylehnodiad
Periodical	pī'r-ī-ōd'ī-kāl, a. cylchol, cylchynol: n. cyhoeddiad cyfnodol.
Periodical disorder	cylch-glefyd, clefyd cyrch
Peripatetic	pēr-ī-pā-tēt'ik, a. amgrwydr-ol. Peripatetics, dylynwyr addysg
Aristotle	dargrwydriaid
Periphery	pēr-rīf'ūr-ī, n. amgylchedd, rhygylch, cylch, cwmpas, cant
Periphase	pēr-ī-fraz, vt. cylchymadroddi
Peripraxis	pēr-rīf'rā-sīs, n. gogyldiaith, cylchddyweddiad, cylchymadrodd
Periphrastical	pēr-ī-frās'tī-kāl, a. cylchymadroddol
Peripneumony	pēr-īp-nū'mūn-ī, n. enynfa yn yr ysgyfaint, ysgyfeinwst
Perish	pēr'ish, vi. marw, trengi, methu, diflanu, darfod; braenu, llygru, mallu
Perishable	pēr'ish-ā-bl, a. darfodadwy, brau; malladwy
Perishableness	pēr'ish-ā-bl-nēs, n. darfodoldeb, breuolder
Perispheric	pēr-ī-sfēr'ik, a. crwn
Peristaltic	pēr-īs-tāl'tik, a. tröedig, nýdd-dröedig
Peristyle	pēr'ī-stil, n. cylchres o golofnau
Peritoneum	pēr-ī-to-nī'ūm, n. llein-gig y bol [guwch]
Periwig	pēr'ī-wīg, n. ffugwallt, pen-
Periwinkle	pēr-ī-wīng'kl, n. gwichiad; ysgarllys bychan
Perjure	pūr'jūr, vt. tyngu anudon, camdyngu, anudoni. To perjure oneself, To commit perjury, tyngu anudon
Perjury	pūr'jūr-ī, n. anudon, geu-lw, camdyngiad
Perk	pūr'k, v. hoew-ymsythu, coegymffrwyno
Perkin	pūr'kīn, n. math o osai
Permanence	pūr'mā-nēs, Permansion, pūr-mān'shūn, n. parād, safedd
Permanent	pūr'mā-nēnt, a. paräus, sefydlog, safadwy [hydraidd]
Permeable	pūr'mī-ā-bl, a. treiddiadwy,
Permeant	pūr'mī-ānt, a. treiddiol
Permeate	pūr'mī-at, vt. trwyo, treiddio
Permiscible	pūr-mīs'ī-bl, a. cymysgadwy
Permissible	pūr-mīs'ī-bl, a. goddefadwy, caniatol
Permission	pūr-mīsh'ūn, n. caniatâd, trwydded, cenad, rhyddid
Permissive	pūr-mīs'iv, a. caniatâol

Permition, pūr-mīs'tshūn, Permixtion, pūr-mīks'tshūn, n. cymysgiad
 Permit, pūr-mīt', vt. caniatâu, goddef, gadael, cenadu, gadaw
 Permit, pūr'mīt, n. trwydded-lythyr
 Permittance, pūr-mīt'âns, n. caniatâd, goddefiad, rhyddid
 Permutation, pūr-mu-ta'shūn, n. cyfnewidiaeth, trynewidiaeth
 Pernicious, pūr-nīsh'ūs, a. niweidiol, dinystriol, drwg [eidiolrwydd
 Perniciousness, pūr-nīsh'ūs-nēs, n. niw-
 Pernicity, pūr-nīs'ī-tī, n. cyflymder, cyflymdra, buandra
 Pernio, pūr-nī-o, n. llosgeira, cibwst
 Pernociation, pūr-nōk-ta'shūn, n. arosiad dros nôs [diweddglo araeth
 Peroration, pēr-o-ra'shūn, n. cynghlo,
 Perpend, pūr-pënd', vt. dwys-ystyried
 Perpendicular, pūr-pēn-dīk'u-lūr, a. union-
 Perpendicual, pūr-pēt'shu-âl, a. paraol, dibaid, gwastadol, tragwyddol, bythol
 Perpetuate, pūr-pēt'shu-at, vt. bytholi, tragwyddoli
 Perpetuity, pūr-pī-tu'ī-tī, n. bytholrwydd
 Perplex, pūr-plēks', vt. dyrysu, petruso; cythryblu, dwysffino, trallodi, methlu
 Perplexity, pūr-plēk'sī-tī, n. dyryswch, astrusi, petrusder; cyfyng-gynghor, cythrudd [feddwod
 Perpotation, pūr-po-ta'shūn, n. gor-
 Perquisite, pūr-kwī-zīt, n. adfael, swyddfael
 Perry, pēr'ī, n. gelleigwin, gelleiglyn
 Persecute, pūr-sī-kut, vt. erlid, erlyn, ymlid, gorthrymu [aeth
 Persecution, pūr-sī-ku'shūn, n. erledig-
 Persecutor, pūr-sī-ku-tūr, n. erlidiwr, erlynydd, gorthrymwr
 Perseverance, pūr-sī-vīr'âns, n. parâd, hir-barâd, dyfal-bara
 Persevere, pūr-sī-vī'r', vi. parâu, para, dyfal-barâu, hir-barâu [dom
 Persicaria, pūr-sī-kēr'ī-â, n. llysiau'r
 Persist, pūr-sist', vi. sefyll at, dal at; aros; dwys-haeru, taeru. To persist in an assertion, dala haer
 Persistence, pūr-sīs'tēns, Persistency, pūr-sīs'tēn-sī, n. parâd; haeriad; cyndynrwydd

Person, pūr'sn, n. dyn, gwr neu wraig, un, person; ansawd, dynsawd; corffol-aeth [golygus
 Personable, pūr'sūn-â-bl, a. prydweddol,
 Personage, pūr'sūn-aj, n. dynsawd enwog; agwedd person
 Personal, pūr'sūn-âl, a. dynsodol, ansodol, personol, dynweddiadol; priod
 Personality, pūr'sūn-âl'ī-tī, n. ansodoldeb, ansodwedd; difriad
 Personate, pūr'sūn-at, v. ymrithio fel un arall, dynward
 Personification, pūr-sōn-ī-fī-ka'shūn, n. ansodiad, dynsodiad
 Personify, pūr-sōn'ī-fi, vt. ansodi, dynsodi
 Perspective, pūr-spēk'tiv, a. golygol, golygiadol: n. arllwg, golygiant, deddfau arbaith; yspeinddrych
 Perspicacious, pūr-spī-ka'shūs, a. craff, llygadgraff, synwyrlym
 Perspicacity, pūr-spī-kās'ī-tī, n. craffder
 Perspicuity, pūr-spī-ku'ī-tī, n. eglurdeb, amlygrwydd, eglurder
 Perspicuous, pūr-spīk'u-ūs, a. amlwg, eglur, hywel
 Perspicuousness, pūr-spīk'u-ūs-nēs, n. eglurder, amlygder, eglurdeb
 Perspirable, pūr-spī'r'â-bl, a. chwysadwy
 Perspiration, pūr-spī-ra'shūn, n. chwys; chwysiad; anadliad trwodd
 Perspire, pūr-spī'r', v. chwysu; anadlu trwodd
 Persuadable, pūr-swa'dâ-bl, Persuasive, pūr-swa'sī-bl, a. darbwylladwy
 Persuade, pūr-swad', vt. dybwylllo, darbwylllo; cynggori, annog, peri coelio
 Persuasion, pūr-swa'zhūn, n. darbwylliad; cred, coledd, barn, tyb
 Persuasive, pūr-swa'siv, a. darbwyllol; annogaethol, denol [ffrydiad
 Persultation, pūr-sūl-ta'shūn, n. gwaed-
 Pert, pūr't, a. ffraeth, pert, cliw, cymhen, tafodrydd; bywiog, sionc
 Pertain, pūr-tan', vi. perthyn, perthynu
 Perturbation, pūr-tī'r-ī-bra'shūn, n. trydylliad [cyndyn, cildynus
 Pertinacious, pūr-tī-na'shūs, a. ystyfnig,
 Pertinacity, pūr-tī-nās'ī-tī, n. cyndynrwydd, ystifnigrwydd
 Pertinence, pūr-tī-nēns, Pertinency, pūr-tī-nēn-sī, n. cyfaddasrwydd, cymhwysder [cymhwys, cyfaddas
 Pertinent, pūr-tī-nēnt, a. perthynol,
 Pertingent, pūr-tīn'jēnt, a. cyhyrddol, cyfhyrddol; agos
 Pertness, pūr't nēs, n. pertedd, ffraethder

PHA pāth, fāt, ēre, mēt, mā-rīne, pīn, ōrb, ōn, cūrve, cūt, t̄w = too, t̄wk = took ;	
Petrusion, pūr-trw'zhūn, n. treiddiad	Petrify, pēt'ri-fi, v. caregu ; ymgaregu
Perturbate, pūr-tūr'bat, vt. terfysgu, cynhyrfu, cyffrōi	Petroleum, pī-tro'li-ūm, n. craigolew
Perturbation, pūr-tūr-ba'shūn, n. aflonyddwech meddwl, cymhelri	Petronel, pēt'ro-nēl, n. llawddryll bychan
Peruke, pēr'uk, n. gwallt-gapan, flugwallt, gwalltwe	Petticoat, pēt'i-kot, n. pais, ambais
Perusal, pē-rw'zāl, n. darlleniad	Pettifogger, pēt'i-fōg-ūr, n. crach-cyfreithiwr, cecryn y llys
Peruse, pē-rw'z, vt. darllen, tryddarllen	Pettifogging, pēt'i-fōg-īng, a. gwael, isel
Pervade, pūr-va'd', vt. tryddedu, treiddio, heinio ; myned trwy, trydaenu	Pettiness, pēt'i-nēs, n. bychander, gwaeledd
Pervasion, pūr-va'zhūn, n. treiddiad	Pettish, pēt'ish, a. anfoddog, anynad, croes, anfwyn
Pervasive, pūr-va'siv, a. tryddedol, heiniol	Pettishness, pēt'ish-nēs, n. adfoddog-rwydd
Perverse, pūr-vūr's', a. gwrthgas, gwrthnysig, trofāus, gwyrgam, pen-gam, cyndyn, cildyn ; croes [rwydd	Pettitoes, pēt'i-toz, n. pl. traed perchyll
Perverseness, pūr-vūr's'nēs, n. cildyn	Petto, pēt'o, n. y fron. In petto, yn ddirgel
Perversion, pūr-vūr'shūn, n. gwyrdro, camwri ; llygriad	Petty, pēt'i, a. bach, bychan ; gwael, isel. Petty felony, chwiwladrad. Petty treason, lledfrad
Pervert, pūr-vūr't', vt. camdrōi, gwyrdrōi, trawswyro ; llygru	Petulance, pēt'u-lāns, n. drygnaws ; sarugrwydd, anniddigrwydd ; coegni, crasder
Perverter, pūr-vūr'tūr, n. gwyrdrōwr, camdrōwr [wy, hydro	Petulant, pēt'u-lānt, a. anniddig, anfoddog, craseiriog ; anllad, nwyfus
Pervertible, pūr-vūr'ti-bl, a. gwyrdroad-	Pew, pu, n. eisteddle ; cwīr. Pew-fellow, cydymaith
Pervicacious, pūr-vi-kā'shūs, a. ysdryfnig, cyndyn [adwy	Pewit, pī'wīt, n. cornicell y dwfr
Pervious, pūr-vi-ūs, a. hydraid, treidd-	Pewter, pu'tūr, n. ystaen
Pesade, pēz-ad', n. ysgogiad march	Phaeton, fa'i-tūn, n. cerbydan
Pest, pēst, n. pla, haint, mallhaint	Phagedena, fāg-i-dī'nā, n. llynoryn ysol
Pester, pēs'tūr, vt. blino, aflonyddu	Phagedenic, fāg-i-dēn'ik, a. ysol
Pestiferous, pēs-tif'ūr-ūs, a. heintddygol	Phalanges, fā-lān'jiz, n. pl. bys-esgyrn
Pestilence, pēs'ti-lēns, n. heintnod, yr haint llŷn, y cornwyd, y pla, pla y nodau, cowyn, mallhaint	Phalanx, fāl'āngks, n. llu anhydor o wŷr, cunell
Pestilent, pēs'ti-lēnt, Pestilential, pēs-ti-lēn'shāl, a. heintnodol, cornwydol, heintus, heintiol, heintddwyn	Phantasm, fān'tāzm, n. lledrith, geurith, dychymyg, gwag-ysbryd, drychiolaeth
Pestle, pēs'l, n. pwyodr, pestl	Phantastical, fān-tās'ti-kāl, a. ffolddychymygus
Pet, pēt, n. anwylyn, maldodyn. Pet-lamb, oen llawfaeth	Phantom, fān tūm, n. tremyniad, drychiolaeth, gwag-ysbryd, ellyll
Petal, pēt'āl, n. gwullddeilen	Pharisaical, fār-i-sā'i-kāl, a. phariseaidd, defodgar ; rhagrithiol
Petard, pī-tārd', n. peiriant at chwythu pyrth yn agored	Pharisee, fār'i-sī, n. pharisead, lledrithiwr, defodwr ; rhagrithiwr
Petechial, pī-tēk'yāl, a. heintfanol	Pharmacologist, fār-mā-kōl'o-jist, n. cyfferiaethwr
Petit, pū-tit' a. bychan, bach.—Petty	Pharmacology, fār-mā-kōl'o-jī, n. cyfferiaeth, meddygiaeth, cyffyrddysg
Petition, pī-tīsh'ūn, n. erfyniad, archiad, deisyfiad, deiseb, deisyf, arch, deisyfiaeth : vt. erfyn, deisyf, gofyn, erchi	Pharmacopalist, fār-mā-kōp'ā-lyst, n. cyfferiwr, gwerthwr moddion meddygol
Petitioner, pī-tīsh'ūn-ūr, n. erfyniwr, eirchiad	Pharmacopeia, fār-mā-ko-pī'yā, n. cyffer-lyfr
Petitionary, pī-tīsh'ūn-ūr-i, a. erfyniol	Pharmacy, fār'mā-sī, n. y gelfyddyd o ddarparu cyfferi ; cyfferiaeth
Petrescent, pī-trēs'ēnt, a. ymgreigiol, ymgaregol ; maeneiddiol	Pharos, fēr'ōs, n. goleudy, gwylfa
Petrification, pēt-ri-fāk'shūn, n. caregiad	Phase, faz, n. ymddangosiad
Petrifactive, pēt-ri-fāk'tiv, a. caregol	

Phasels, fá'zêlz, n. pl. ffa Ffrengig, pŷs hirion [ddangosiad
 Phasis, fá'sis (pl. phases, fá'siz), n. ym-Phasm, fázm, n. gau ymddangosiad
 Pheasant, fêz'ánt, n. ceiliog coed, iâr goed
 Pheese, fîz, vt. cribo; ysgrafellu; lleiâu
 Phenomenon, phî-nôm'ên-ün (pl. phenomena, phî-nôm'ên-â), n. ymddangosiad rhyfeddol [costrelu
 Phial, fî'äl, n. costrelan, costreliog: vt.
 Philanthropic, fîl-än-thröp'ik, a. dyn-garol, dyn-gar [garwr
 Philanthropist, fî-län'thro-pîst, n. dyn-Philanthropy, fî-län'thro-pî, n. dyn-gar-weh [araeth
 Phillipic, fî-lîp'ik, n. duchan, gogan-Philologer, fî-löl'o-jür, Philologist, fî-löl'o-jîst, n. ieithydd, dwnedwr, llythyr-egwr, grammadegydd
 Philological, fîl-o-löj'i-käl, a. ieithyddol
 Philology, fî-löl'o-jî, n. ieithyddiaeth, llythyregaeth
 Philomath, fîl'o-mäth, n. dysg-garydd
 Philomel, fîl'o-mêl, n. yr eaws, yr eos
 Philosphaster, fî-lös-o-fäs'tür, n. coeg-athronydd
 Philosopher, fî-lös'o-für, n. athronydd, ofydd, gwyddon. Philosopher's stone, eurfaen [ol, athronyddol
 Philosophical, fîl-o-söf'i-käl, a. gwyddon-Philosophize, fî-lös'o-fiz, vt. gwyddoni, athroniaethu
 Philosophy, fî-lös'o-fî, n. athroniaeth, gwyddoniaeth, athronddysg. Mechanical philosophy, ofyddiaeth. Moral philosophy, moesddysg, moesathrawiaeth. Natural philosophy, anianyddiaeth
 Philter, fîl'tür, n. swyn serch
 Phiz, fîz, n. gwyneb, wyneb, wynebpryd
 Phlebotomize, fî-böt'o-miz, vt. gollwng gwaed, gwaedu [ollyngiad
 Phlebotomy, fî-böt'o-mî, n. gwaed-Phlegm, flêm, n. cornboer, llysnafedd
 Phlegmatic, flêg-mät'ik, a. llysnafeddog; oerllyd, diegni [chwyddiad
 Phlegmon, flêg'mün, n. penddigid, Phlegmonous, flêg'mün-üs, a. fflamegol
 Phleme, flîm, n. flaim, cylllell waedu
 Phlogistic, flo-jîs'tik, a. llosgol, poeth
 Phlogiston, flo-jîs'tün, n. y rhan hyllog o gyrff
 Phœnix, fî'nîks, n. aderyn dychymydog
 Phonetic, fo-nêt'ik, a. seindebol, seindebygol

Phonetics, fo-nêt'iks, n. pl. seinyddiaeth, seinebiaeth
 Phonic, fo'nîk, a. lleisiol
 Phonics, fo'nîks, n. pl. seinddysg, swniadaeth
 Phonographic, fo-no-gräf'ik, a. seinsys-grifenol [grifaeth
 Phonography, fo-nög'râ-fî, n. seinsys-Phosphorus, fös'für-üs, n. y seren ddydd; tânfwn, defnydd fferyllaidd fflamlyd
 Photometer, fo-töm'i-tür, n. gwawl-fesurydd
 Phrase, fraz, n. geiriad, ymadrodd, dywediad, gofrawd: v. geiriadu, geirio, ieithiogi
 Phraseology, fra-zî-öl'o-jî, n. ieithiad, geirioliaeth, geirweddiad; priodiaith
 Phrenetic, frî-nêt'ik, a. gorwyllt, gor-phwylllog [ydd
 Phrenitis, frî-nî'tis, n. ennyfya yr ymen-Phrenology, frî-nöl'o-jî, n. ymenddysg, meddyldraeth, menyddog, pen-glog-ddysg [gof
 Phrensy, frên'zî, n. cynddaredd, gwall-Phthisis, tî'sis, Phthisic, tîz'ik, n. darfodedigaeath ysgyfeiniol [nychol
 Phthistical, tîz'i-käl, a. darfodedigol,
 Phylactery, fî-läk'tür-i, n. darn o fem-rwn â geiriau o'r ddeddf arno
 Physic, fiz'ik, n. meddygiaeth, meddyginiaeth. Physics, anianyddiaeth, dandosdiaeth, natureg, anianddysg, anian-draw
 Physical, fiz'i-käl, a. meddygol; aniany-ddol. Physical force, nerth braich ac ysgwydd [ygydd
 Physician, fî-zîsh'än, n. meddyg, medd-Physico-theology, fiz-i-ko-thî-öl'o-jî, n. aniandduwiaeth
 Physiognomist, fiz-i-ög'no-mîst, n. wynebddewin
 Physiognomy, fiz-i-ög'no-mî, n. wyneb-goel, wynebddysg [yddol
 Physiological, fiz-i-o-löj'i-käl, a. anian-Physiologist, fiz-i-öl'o-jîst, n. anian-draethydd [anianddysg
 Physiology, fiz-i-öl'o-jî, n. aniandraeth,
 Phytivorous, fi-tîv'o-rüs, a. yn bwyta llysiau
 Phytology, fi-töl'o-jî, n. llysieuaeth
 Piacle, pi'ä-kl, n. mawrddrwg
 Piacular, pi-äk'u-lür, a. ysgeler, tra drygionus; dyhuddol
 Pia-mater, pi-ä-mä'tür, n. îs-grefadur
 Pianet, pi'ä-nêt, n. piöden; cnocell y coed

PIM pāth, fāt, ēre, mēt, mā-rīne, pīn, ōrb, ōn, cūrve, cūt, t̄w = too, t̄wk = took;

Piano, pī-ān'ō, a. isel, esmwyth, tyner. Piano-forte, math o offeryn cerdd

Piaster, pī-ās'tūr, n. darn o arian Ital-aid, o werth 4s. 4c.

Piazza, pī-āz'ā, n. rhodfa golofnog

Pibroch, pī'brōk, n. math o alaw milwr-aid yn yr Alban

